***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1843

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

## RHAN 4

## CYFRANIADAU AC AD-DALIADAU AM DALIADAU UNIONGYRCHOL

**Dyfarniadau ynghylch cyfraniadau neu ad-daliadau**

**20.** Pan fo awdurdod lleol yn tybio y byddai'n ei gwneud yn ofynnol gwneud cyfraniad neu ad-daliad mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol a wneir, neu y cynigir eu gwneud ganddo, ac wedi cynnal asesiad ariannol o B yn unol â gofynion y Rheoliadau Asesiad Ariannol, rhaid iddo wneud dyfarniad ynghylch pa swm, os oes un, y mae'n rhesymol ymarferol i B ei gyfrannu tuag at gost sicrhau'r gofal a chymorth y gwneir y taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â hwy, pa un ai ar ffurf cyfraniad neu ad-daliad, yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.